# YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA-BRO DUR
# Cynllun Gwariant GDD 2024-25

**Datganiad Grant Datblygu Disgyblion Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur**

Mae Grant Datblygu Disgyblion i ysgolion â disgyblion sy’n dod o deuluoedd incwm isel ac sydd ar hyn o bryd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (e-FSM) a disgyblion sydd wedi derbyn gofal yn barhaus am fwy na chwe mis (LAC).

Disgwylir i ysgolion ddefnyddio’r cyllid hwn i’r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at newidiadau i ddysgwyr sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim neu sy’n LAC. Disgwylir i ysgolion ddefnyddio’r grant er mwyn:

1. Yn gyntaf, bod y GDD yn cael ei ddefnyddio, drwy waith yn y meysydd allweddol, i wella cyrhaeddiad plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel.
2. Yn ail, bod y defnydd o'r grant yn cael ei lywio gan dystiolaeth ar yr hyn sy'n effeithiol wrth wella cyrhaeddiad dysgwyr o aelwydydd incwm isel.
3. Yn drydydd, bod ysgolion yn monitro'r defnydd o'r GDD ac yn gwerthuso'r effaith y mae'n ei chael ar gyrhaeddiad dysgwyr.

Yn 2023-24 rhoddwyd i Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur ddyraniad Grant Datblygu Disgyblion o **£235,750**

Yn yr ysgol mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi’i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Sir Castell Nedd Port Talbot i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy’n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

**Rydym wedi defnyddio’r cyllid sydd ar gael i wneud y canlynol:**

- Ariannu rheolwr ymyrraeth i gyd-lynu, creu ac arwain rhaglenni, cyrsiau a gweithgareddau ar gyfer grwpiau targed gan gynnwys disgyblion difreintiedig, PYDd a disgyblion CLA.
- Datblygu arweinwyr i hyrwyddo addysgeg a sicrhau datblygiad staff effeithiol o fewn yr ysgol. Y nod yw sicrhau bod yr holl staff yn deall yr angen i oresgyn y rhwystrau sy'n wynebu ein disgyblion o fewn cymdeithas. Cynhelir sesiynau HMS penodol ar wella ansawdd yr addysgu yn yr agweddau hyn yn flynyddol.
- Hyfforddi cynorthwy-wyr arbenigol i greu proffil o bob plentyn ym mhob CA, creu cynlluniau gweithredu pendant a chyflwyno’r ymyrraeth.

- Rhyddhau Arweinwyr Blwyddyn i gynllunio a monitro rhaglen fentora ddwys gydag ymyrraethau penodol i ddisgyblion difreintiedig, PYDd (presenol a blaenorol) i godi safonau ym mhob cyfnod.
- Ariannu ‘Swyddog Cynhwysiant’ er mwyn darparu adnodd gynhwysiant lwyddiannus er mwyn sicrhau dilyniant mewn addysg i rai o’n disgyblion mwyaf bregys.
- Ariannu Anogwr Dysgu i ddarparu cefnogaeth 1:1 a grwpiau bach (1 ar bob safle)
- Monitro presenoldeb yn agos, gan gyflwyno amrywiaeth eang o strategaethau gan gynnwys targedu disgyblion penodol sydd mewn perygl o dangyflawni oherwydd tlodi ac amddifadedd.
- Adnabyddiaeth o grŵp o ddisgyblion CA4 sydd mewn perygl o beidio â bod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) pan fyddant yn gadael yr ysgol yn 16 oed. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn mewn perygl o dangyflawni oherwydd tlodi ac amddifadedd. Maent yn derbyn sesiynau mentora rheolaidd i'w cefnogi i ymdopi â gofynion gwahanol gyrsiau, yn ogystal â'u hannog i godi eu lefelau cymhelliant i lwyddo yn academaidd.
- Darparu llwybrau cwricwlwm addas gyda dyraniad amser / adnoddau yn cyfateb i anghenion disgyblion unigol.
- Gwella presenoldeb a phrydlondeb y grŵp targed drwy ddefnyddio cyfweliadau, monitro a chefnogaeth wedi dargedu gan fentoriaid personol, swyddogion cynhwysiant a swyddog lles yr ysgol.
- Cydweithio agos gyda'n partneriaid lleol a’n rhieni a theuluoedd er mwyn datblygu egwyddorion ysgolion cymunedol.
- Gwrthbwyso cost ymweliadau addysgol a gwrthbwyso costau preswyl disgyblion PYDd a'r rhai mewn cartrefi difreintiedig.

Cytunwyd gan y Corff Llywodraethol 13.11.24

**Cytunwyd:**

| | |
|---|---|
| **Laurel Davies** | **Tudur Jones** |
| **Pennaeth** | **Cadeirydd** |